

Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Freyja Medical Clinic

Dyddiad arolygu: 22 Tachwedd
2018

Dyddiad cyhoeddi: 25 Chwefror
2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Rhoi gofal diogel ac effeithiol.....	12
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	16
4.	Beth nesaf?.....	18
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol.....	20
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	21
	Atodiad B – Cynllun gwella.....	22

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn rydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gymesur.

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Freyja Medical Clinic 22 Tachwedd 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod Freyja Medical Clinic yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd dymunol a bod ganddo staff cyfeillgar, proffesiynol ac ymroddedig.

Cadarnhaodd yr adborth a gawsom fod y cleifion yn hapus iawn â'r gwasanaeth.

Gwelsom fod y clinig yn cael ei redeg yn dda ac yn bodloni'r rheoliadau perthnasol i sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion.

Gwelsom dystiolaeth bod contractau cynnal a chadw amrywiol ar waith er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd a'r cyfleusterau'n ddiogel ac mewn cyflwr da.

Mae gan y gwasanaeth arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Rhoddwyd digon o wybodaeth i gleifion i'w galluogi i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth a gwelsom dystiolaeth bod cleifion yn fodlon ar y driniaeth a'r gwasanaeth a ddarperir
- Gwelsom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn dda iawn a bod systemau effeithiol ar waith i gefnogi rheolwyr ac arweinwyr y gwasanaeth yn gyffredinol
- Roedd y staff yn ymddangos yn hapus iawn yn eu rolau, roeddent yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n fedrus ac roedd ganddynt ymrwymiad cryf i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel
- Roedd cyfleusterau'r clinig yn cynnwys offer priodol ac roeddent yn amlwg yn lân, yn daclus ac yn drefnus.
- Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau
- Mae cofnodion clinigol rhagorol yn cael eu cynnal.

Ni nodwyd unrhyw feysydd lle roedd diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Freyja Medical Clinic wedi'i gofrestru fel ysbyty annibynnol am ei fod yn darparu triniaethau Technoleg Goleuni Pwls Dwys (IPL)¹, dermatoleg, llawdriniaeth ar y croen a gwasanaethau practis cyffredinol preifat, yn ogystal â thriniaethau cosmetig nad ydynt yn ymwithiol iawn ar 25 Stryd Caer, Wrecsam, LL13 8BG. Cafodd y clinig ei gofrestru gyntaf gydag AGIC ar 13 Rhagfyr 2017.

Ar adeg yr arolygiad, roedd y tîm o staff yn cynnwys tri gweithredwr laser a derbynnydd penodedig. Mae'r clinig wedi'i gofrestru i ddarparu'r triniaethau canlynol i gleifion dros 18 mlwydd oed:

System Lynton Excelight ar gyfer y triniaethau canlynol:

- Gwaredu blew
- Adfywio'r croen
- Gwaredu pigmentiad y croen
- Anafiadau fasgwlaidd
- Pigementiad y croen
- Creithiau acne

¹Technoleg ffynhonnell goleuni sbectwm eang yw IPL a chaiff ei defnyddio gan ymarferwyr meddygol a chosmetig i gynnal triniaethau amrywiol ar y croen at ddibenion aesthetig a therapiwtig.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod Freyja Medical Clinic yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd dymunol iawn a bod ganddo staff cyfeillgar, proffesiynol ac ymroddedig.

Cadarnhaodd yr adborth a gawsom fod y cleifion yn hapus iawn â'r gwasanaeth.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y clinig i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o wyth holiadur. Roedd y mwyafrif o'r holiaduron a gwblhawyd gan gleifion a oedd wedi bod yn gleifion yn y clinig ers llai na 12 mis.

Ar y cyfan, roedd adborth y cleifion yn gadarnhaol iawn, a dywedodd pob claf fod y gofal a'r driniaeth a gawsant yn rhagorol. Ymhlith y sylwadau gan gleifion a oedd yn canmol y gwasanaeth, roedd y canlynol:

"Mae'r holl staff rydw i wedi dod i gysylltiad â nhw wedi rhoi'r gwasanaethau a'r cymorth gorau rwyf wedi'i gael erioed. Rwyf wedi bod i sawl lle gwahanol i gael fy nhriniaeth Goleuni Pwls Dwys (IPL) ac mae'n rhaid i mi ddweud mai hwn yn bendant yw'r lle gorau rwyf wedi bod iddo a byddaf yn parhau i fod yn glaf yma tra bydd angen y driniaeth arnaf. Mae prisiau'r triniaethau yn rhesymol iawn o'u cymharu â lleoedd eraill rwyf wedi bod iddynt. Byddwn yn bendant yn argymhell y lle hwn i bobl eraill"

"Mae'r staff bob amser yn broffesiynol, yn gymwys ym mhob agwedd ar y driniaeth rwyf wedi'i chael"

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r clinig wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo; roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

"Nid oes unrhyw beth y gallwn ei awgrymu gan fy mod"

wastad wedi cael gwasanaeth rhagorol"

"Dim ond parhau i ddarparu'r gwasanaeth rhagorol"

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom fod gofyn i gleifion gwblhau ffurflen hanes meddygol cyn cael triniaeth gychwynnol, a gofynnwyd a fu unrhyw newidiadau ym mhob apwyntiad dilynol er mwyn helpu i sicrhau bod y driniaeth yn cael ei darparu mewn ffordd ddiogel.

Urddas a pharch

Gwelsom fod modd cloi'r drws i'r ystafelloedd triniaeth a chadarnhaodd y staff eu bod yn gwneud hyn yn ystod triniaethau. Rhoddwyd tywelion i gleifion i ddiogelu'u hurddas os oedd angen, a rhoddwyd llonydd i gleifion ddadwisgo ar eu pen eu hunain os oedd angen.

Cynhaliwyd ymgynghoriadau â chleifion yn yr ystafell driniaeth, er mwyn sicrhau y gellir trafod gwybodaeth gyfrinachol a phersonol heb i neb glywed y sgwrs ar ddamwain.

Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur yn cytuno'n gryf bod y staff bob amser yn gwrtais, yn garedig ac yn sensitif wrth roi gofal a thriniaethau.

Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad

Gwelsom fod cleifion yn cael digon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth. Y rheswm dros hyn yw bod y cleifion yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb trylwyr cyn derbyn unrhyw driniaeth. Dywedwyd wrthym fod y trafodaethau hyn yn cynnwys risgiau, manteision a chanlyniad tebygol y driniaeth a gynigir. Gwelsom hefyd enghreifftiau o daflenni gwybodaeth manwl i gleifion a oedd ar gael.

Dywedwyd wrthym fod pob claf yn cael prawf clytiau cyn dechrau'r driniaeth er mwyn helpu i benderfynu a oeddent yn addas i gael y driniaeth a thebygolrwydd unrhyw adweithiau andwyol. Cynhaliwyd cofrestr triniaethau ac roedd gwybodaeth am y triniaethau hefyd yn cael ei chofnodi yn ffeiliau cleifion unigol.

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur eu bod wedi cael digon o wybodaeth am eu triniaeth, gan gynnwys y risgiau, gwahanol opsiynau triniaeth, y costau a'r gwasanaethau ôl-ofal. Dywedasant hefyd fod y staff yn gwrando arnynt yn ystod eu hapwyntiadau a'u bod bob amser yn llofnodi ffurflen gydsyniad cyn cael unrhyw driniaeth.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd datganiad o ddiben a chanllaw i gleifion ar gael i gleifion fynd gyda nhw. Roedd y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion yn cynnwys y wybodaeth berthnasol am y gwasanaethau a gynigir.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym mai Saesneg oedd eu dewis iaith a'u bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser.

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym hefyd fod y staff yn gwrando arnynt yn ystod eu hapwyntiad a'u bod yn teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys (cymaint ag yr oeddent yn dymuno cael eu cynnwys) mewn penderfyniadau am eu triniaeth.

Mae gan y clinig wefan a'i thafenni gwybodaeth ei hun, sy'n darparu gwybodaeth am y triniaethau sydd ar gael a'r ôl-ofal.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion a gwelsom dystiolaeth bod dull clir a thryloyw o gynllunio triniaethau a'u prisio.

Cynllunio a darparu gofal

Roedd pob claf yn cael apwyntiad ymgynghori cyn i'r driniaeth ddechrau, a oedd yn cynnwys asesiad o'r math o groen sydd ganddynt. Gwelsom enghreifftiau o ddogfennau gwybodaeth ac ôl-ofal da a roddir i gleifion, a oedd yn cynnwys manylion am y risgiau a'r manteision.

Roedd nodiadau cleifion unigol manwl iawn ar gael, a thystiolaeth o brosesau rhagorol ar gyfer cadw cofnodion. Roedd fformatau'r dogfennau'n dda, ac yn cynnwys math o groen, cydsyniad i driniaeth a hanes meddygol.

Cadarnhaodd pob claf a gwblhaodd holiadur eu bod wedi cael prawf clytiau cyn dechrau cael unrhyw driniaeth.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Mae'r gwasanaeth wedi'i leoli ar y llawr gwaelod gyda mynediad i bobl anabl i'r ardal aros, y dderbynfa ac un ystafell ymgynghori. Mae dwy ystafell ymgynghori arall ar gael i fyny set o risiau sy'n arwain o'r ardal aros.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth

Gwelsom fod gan y clinig system ar waith i geisio adborth gan gleifion, fel ffordd o fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Gwelsom fod canlyniadau'r arolwg diwethaf yn gadarnhaol dros ben ac roedd dadansoddiad yn cael ei arddangos yn amlwg yn yr ystafell aros ac wedi'i gyhoeddi ar eu gwefan. Gallai cleifion hefyd adael adborth yn ddienw ar wefan y gwasanaeth.

Rhoi gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Gwelsom fod y clinig yn cael ei redeg yn dda ac yn bodloni'r rheoliadau perthnasol i sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion.

Gwelsom dystiolaeth bod contractau cynnal a chadw amrywiol ar waith er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd a'r cyfleusterau'n ddiogel ac mewn cyflwr da.

Roedd yr ystafelloedd triniaethau yn cynnwys adnoddau digonol ac roeddent i'w gweld yn lân.

Roedd y gwaith cadw cofnodion yn rhagorol.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Gwelsom dystiolaeth bod Profion Dyfeisiau Cludadwy (PAT) wedi'u cynnal, er mwyn helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn ddiogel i'w defnyddio. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod gwiriad wedi'u cynnal ar y gwifrau trydanol o fewn y pum mlynedd diwethaf.

Gwnaethom edrych ar rai o'r trefniadau ar gyfer gofal tân. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig² y cynhaliwyd hyfforddiant diogelwch tân mewnol. Roedd labeli gwasanaethu ar y cyfarpar diffodd tân yn dangos eu bod yn cael eu gwasanaethu'n flynyddol ac roedd arwyddion clir i ddangos yr allanfeydd tân.

Roedd blwch cymorth cyntaf argyfwng ar gael ac roedd tri aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf.

²ystyr "rheolwr cofrestredig" yw person sydd wedi'i gofrestru o dan Ran 2 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 fel rheolwr practis deintyddol preifat

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod y gwasanaeth i'w weld yn lân iawn, yn daclus ac yn drefnus iawn. Gwnaethom drafod y trefniadau rheoli heintiau a oedd ar waith gyda'r rheolwr cofrestredig ac roeddem o'r farn bod y rhain yn briodol i ddiogelu cleifion rhag croes heintio.

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y gwasanaeth; roedd pob claf a gwblhaodd holiadur o'r farn bod yr amgylchedd yn lân ac yn daclus iawn.

Roedd gwastraff clinigol yn cael ei waredu'n briodol a gwelsom fod gan y gwasanaeth contract ar waith gyda chludydd gwastraff cymeradwy.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i drin cleifion dros 18 mlwydd oed yn unig. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig y cydymffurfir â'r amod hwn.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y ffordd y byddent yn ymdrin ag unrhyw faterion yn ymwneud â diogelu oedolion. Roedd polisi diogelu ar waith, yn cynnwys gweithdrefnau clir i'w dilyn pe bai pryder am ddiogelu oedolion, ac roedd yn cynnwys manylion cyswllt y tîm atgyfeirio diogelu lleol. Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant diogelu.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Gwelsom dystiolaeth bod y peiriant IPL yn cael ei wasanaethu'n flynyddol ac roedd y dystysgrif calibradu'n gyfredol. Gwelsom fod protocolau triniaethau ar waith ar gyfer y peiriant IPL a bod y rhain wedi'u goruchwyllo gan ymarferwr meddygol arbenigol.

Gwelsom fod contract ar waith gyda Chynghorydd ar Ddiogelu rhag Laserau (LPA) a rheolau lleol³ yn disgrifio'n fanwl sut i weithredu'r peiriant yn ddiogel.

³Dylai rheolau lleol (neu weithdrefnau gweithio'n ddiogel) adlewyrchu arferion gwaith diogel ac ymwneud â rheoli diogelwch y laserau, systemau IPL a'r LEDs o ddydd i ddydd. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/474136/Laser_guidance_Oct_2015.pdf

Roedd y rheolau lleol wedi'u hadolygu'n rheolaidd gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau ac wedi'u llofnodi gan bob gweithredwr.

Roedd gan y clinig amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ar waith a oedd yn cynnwys manylion am y ffordd y byddai'r clinig yn parhau i gynnig gwasanaethau pe byddai cyfarpar yn methu neu yn achos trychineb arall.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom dystysgrifau yn dangos bod pob aelod perthnasol o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth⁴ a hyfforddiant ar ddefnyddio'r peiriant IPL.

Gwelsom fod offer diogelu llygaid priodol ar gael i gleifion a gweithredwyr eraill. Roedd yr offer diogelu llygaid i'w gweld mewn cyflwr da a chadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y sbectolau'n cael eu harchwilio'n rheolaidd i sicrhau nad oedd unrhyw ddifrod arnynt.

Roedd arwydd ar ddrws yr ystafell driniaethau i ddangos o'r tu allan bod y peiriant IPL yn cael ei ddefnyddio. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig hefyd fod drws yr ystafell driniaethau yn cael ei gloi pan fo'r peiriant yn cael ei ddefnyddio er mwyn atal mynediad diawdurdod. Dywedwyd wrthym fod y peiriant yn cael ei gadw dan glo bob amser.

Roedd polisi rheoli risg ar gael i ni ei weld ar ddiwrnod yr arolygiad.

Roedd yr asesiadau risg amgylcheddol wedi'u hadolygu'n ddiweddar gan Gynghorydd Diogelu rhag Laserau.

Roedd gan y clinig amrywiaeth dda o bolisïau a gweithdrefnau ar waith yn ymwneud â phob agwedd ar ofal a diogelwch clinigol.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom dystiolaeth bod gan y clinig ddigon o systemau addas ar waith i asesu a mionitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd. Y rheswm

⁴Bwriedir hyfforddiant Craidd Gwybodaeth ar gyfer gweithredwyr sy'n defnyddio laserau a systemau IPL ar gyfer amrywiaeth o driniaethau croen. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys gwybodaeth a chanllawiau ar ddefnyddio laserau a systemau IPL yn ddiogel.

dros hyn yw bod y clinig, yn unol â'r rheoliadau, yn ceisio barn cleifion yn rheolaidd fel ffordd o lywio'r gofal, yn cynnal archwiliadau rheolaidd i sicrhau cysondeb y wybodaeth ac yn asesu risgiau iechyd a diogelwch. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod y gwasanaeth yn cynnal cyfarfodydd llywodraethu clinigol gyda'r staff bob chwarter.

Rheoli cofnodion

Gwelsom fod gwybodaeth cleifion yn cael ei chadw'n ddiogel yn y gwasanaeth.

Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion cleifion a gwelsom dystiolaeth bod nodiadau cleifion o safon uchel yn cael eu cadw.

Adolygwyd sampl o gofnodion cleifion ac roedd dystiolaeth bod y clinig yn cadw cofnodion rhagorol, gan ddangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i gyflawni er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant cleifion.

Ym mhob achos, roedd y nodiadau a adolygwyd wedi'u personoli ar gyfer y claf hwnnw ac yn cynnwys dangosyddion priodol ar gyfer y claf. Roedd y cofnodion yn glir iawn, yn ddarllenadwy ac o ansawdd rhagorol.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd sut mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad eu hun yn erbyn y Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Mae gan y clinig arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Roedd y staff yn ymddangos yn hapus iawn yn eu rolau ac roeddent yn cyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau'n fedrus. Dywedodd y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u bod yn cydweithio'n dda.

Roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn nifer o feysydd a oedd wedi helpu i sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf i'w helpu yn eu gwaith.

Gwelsom fod gan y clinig amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Gwnaethom edrych ar sampl o bolisiâu a gweithdrefnau a oedd ar waith yn y clinig, a gwelsom eu bod wedi'u hadolygu'n rheolaidd. Roedd y polisiâu a gweithdrefnau'n cynnwys dyddiadau fersiynau a / neu adolygu. Caiff unrhyw newidiadau i bolisiâu neu weithdrefnau eu dwyn i sylw'r staff.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod llinellau atebolrwydd clir yn y clinig, a bod y staff yn ymwybodol iawn o'u rolau a'u cyfrifoldebau.

Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau

Gwelsom fod gan y clinig bolisi cwynion ar waith a'i fod yn rhoi'r manylion cyswllt cywir ar gyfer AGIC yn unol â'r gofynion rheolieddio. Roedd manylion am y weithdrefn gwynion hefyd wedi'u cynnwys yn y datganiad o ddiben.

Gwelsom dystiolaeth bod gan y gwasanaeth system ar waith i gofnodi cwynion a phryderon ffurfiol ac anffurfiol. Hyd at ddyddiad yr arolygiad, nid oedd y clinig wedi derbyn unrhyw gwynion.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Gwelsom dystysgrifau yn dangos bod pob defnyddiwr awdurdodedig sy'n gweithredu'r peiriant IPL wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth a hyfforddiant ar ddefnyddio'r peiriant IPL.

Gwelsom hefyd fod y staff wedi cwblhau nifer ac amrywiaeth o fodiwlau hyfforddi mewnol, allanol ac ar-lein, a gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff wedi cael arfarniad, a oedd yn cynnwys cynllun datblygiad proffesiynol.

Recriwtio'r gweithlu ac arferion cyflogaeth

Dywedodd y rheolwr cofrestredig fod y tîm staff presennol yn sefydliedig a disgrifiodd y prosesau recriwtio. Ni fyddai defnyddwyr awdurdodedig yn defnyddio'r peiriant IPL nes iddynt gael yr hyfforddiant priodol a nes bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cynnal.

Mae'r clinig yn cyflogi cwmni Adnoddau Dynol i ymdrin â materion recriwtio ac roedd polisïau a gweithdrefnau recriwtio a sefydlu manwl ar waith.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan eir i'r afael â'r rhain.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gallwn gynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn ddirybudd neu lle rhoddwyd rhybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd gan fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau'n gweithredu yn eu ffordd arferol. Ni fydd y gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddwyd rhybudd, gan olygu y bydd y gwasanaeth yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Bydd arolygiadau o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn edrych ar y ffordd y mae'r gwasanaethau'n gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Bodloni'r [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystryied safonau proffesiynol a chanllawiau eraill fel sy'n berthnasol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir manylion pellach am y ffordd [y mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Freyja Medical Clinic

Dyddiad arolygu: 22 Tachwedd 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod yr arolygiad hwn.				
Rhoi gofal diogel ac effeithiol				
Dd/G				
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Dd/G				

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras):

Teitl swydd:

Dyddiad: